



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre
Parc Road
Rhosymedre
LL14 3EG**

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre wedi'i lleoli ar gyrion datblygiad mawr o dai i'r de o Wrecsam, rhwng Rhiwabon a Llangollen. Roedd yr ardal yn ardal Cymunedau yn Gyntaf gynt ac mae'n wynebu'r heriau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd cymdeithasol ac economaidd.

Mae 243 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 30 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Caiff disgyblion eu haddysgu mewn wyth dosbarth oed unigol. Mae ychydig o dan 10% o ddisgyblion yr ysgol wedi ymuno yng nghanol y flwyddyn, yn aml trwy drosglwyddiadau a reolir o ysgolion eraill. Yn ogystal, mae darpariaeth adnoddau cyfnod allweddol 2 oed cymysg yno, sy'n rhoi addysg i 11 o ddisgyblion a ddaw o bob rhan o Wrecsam ac sydd ag amrywiaeth eang o anghenion dysgu ychwanegol.

Mae tua 43% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch o lawer na chyfartaledd Cymru, sef 19%. Mae'r ysgol yn datgan bod tua 50% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion ychwanegol, sy'n uwch o lawer na chyfartaledd Cymru, sef 21%. Nifer bach iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddisgyblion gwyn Prydeinig. Mae tua 5% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol ac nid oes unrhyw ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae'r awdurdod lleol yn gofalu am nifer bach iawn o ddisgyblion.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mawrth 2011. Fe wnaeth y pennaeth, sef y dirprwy bennaeth gynt, ymgymryd â'i swydd ym Medi 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre yn gymuned hynod ofalgar a meithringar sy'n sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Mae'r perthnasoedd gweithio a'r lefelau uchel o ymddiriedaeth a pharch rhwng staff a disgyblion yn eithriadol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn, yn enwedig wrth ddatblygu'u medrau siarad a gwranddo. Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm sy'n hoelio sylw disgyblion ac yn eu helpu i ddod yn ddysgwyr hyderus, annibynnol. Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn cynnig arweinyddiaeth gadarn ac ymdeimlad clir o gyfeiriad strategol i waith yr ysgol; mae'r ddau yn angerddol iawn am y gymuned maen nhw'n ei gwasanaethu. Cânt gymorth cryf gan staff sydd oll yn credu yng ngweledigaeth yr ysgol ac yn gweithio tuag at ei chyflawni.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Rhagorol
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Rhagorol
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Gwella gallu disgyblion i ymestyn eu hysgrifennu
- A2 Gwella safonau disgyblion mewn Cymraeg a'u gwybodaeth am ddiwylliant a threftadaeth Cymru
- A3 Rhoi cyfleoedd rheolaidd i staff rannu'r arferion gorau mewn addysgu sydd eisoes i'w gweld yn yr ysgol ac arsylwi arferion da mewn dysgu ac addysgu mewn ysgolion eraill

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â sut mae'n datblygu medrau siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu cynnar disgyblion a, hefyd, ar sut mae'r ysgol wedi datblygu'n gymuned feithringar sy'n gwella agweddau disgyblion at yr ysgol a'u hymddygiad, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd, rhifedd a phersonol a chymdeithasol sydd islaw'r medrau disgwylidig ar gyfer eu hoedran. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae disgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn gwneud cynnydd eithriadol wrth ddatblygu eu medrau lleferydd ac iaith. Mae llawer ohonynt yn dechrau siarad yn glir mewn brawddegau ac yn dangos dealltwriaeth glir o amrywiaeth ehangach o eiriau. Maent yn magu hyder wrth ddefnyddio'u medrau cyfathrebu a thrafodant eu chwarae yn frwd; yn aml, nhw fydd yn cychwyn sgysiau gydag oedolion a'i gilydd. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen yn yr ysgol, maent yn parhau i ddatblygu eu medrau siarad a gwrando yn hynod dda. Mae eu hyder yn parhau i gynyddu a dônt yn fwy cyfforddus yn siarad â grwpiau a chynulleidfaoedd mwy at amrywiaeth o ddibenion. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6, er enghraifft, yn esbonio'u strategaethau a'u hymresymu i'r dosbarth cyfan wrth ddatrys problemau mathemategol.

Mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'u medrau darllen yn effeithiol. Maent yn adeiladu cronfa o eiriau y maent yn eu hadnabod yn syth ac yn defnyddio'u gwybodaeth am seiniau i'w helpu i ddod i ddeall geiriau anghyfarwydd. Ar draws yr ysgol, wrth i brofiadau disgyblion ehangu ac wrth iddynt ddatblygu geirfa fwy helaeth, mae eu rhuglder wrth ddarllen, eu mynegiant a'u dealltwriaeth o destunau yn gwella. Mae disgyblion mwy abl a disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn mwynhau trafod y llyfrau maent wedi'u darllen. Maent yn proffwydo beth allai ddigwydd nesaf ac yn dod o hyd i wybodaeth yn gymharol ddidrafferth gan ddefnyddio technegau llithr-ddarllen.

Mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen a blynyddoedd is cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae disgyblion yn deall bod ystyr i'r marciau a wnânt. Er enghraifft, yn y dosbarth derbyn, mae grwpiau o ddisgyblion yn creu mapiau stori o daith y dyn bach sinsir. Defnyddiant symbolau, lluniau a llythrennau i ailadrodd y stori a darllenant eu gwaith yn ôl gyda brwdfrydedd a balchder. Mae disgyblion yn dechrau ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol, ond nid ydynt yn datblygu'u syniadau'n ddigon da bob amser i ymestyn eu hysgrifennu. Mae disgyblion hŷn yn magu hyder yn eu gallu i ysgrifennu ac yn llunio darnau hwy o destun lle maent yn esbonio'u syniadau yn dda. Ymatebant yn gadarnhaol i awgrymiadau gan eu hathro a'u cymheiriaid am sut i wella'u hymdrechion cyntaf. Er enghraifft, gwnânt addasiadau fel newid geiriau i gael mwy o effaith ac ailddrafftio adrannau i wneud pwyntiau'n gliriach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau mathemategol yn llwyddiannus ac yn cymhwyso'r medrau hyn yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ymarferol, er enghraifft pan fydd disgyblion Blwyddyn 1 yn archwilio cynhwysedd trwy chwarae â dŵr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o wahanol feysydd mathemateg, fel mesurau, rhif a siâp. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn

defnyddio'u gwybodaeth am sut i gyfrifo perimedr siapiau syml i adeiladu sw i'r anifeiliaid sydd wedi dianc o flwch Pandora. Mae disgyblion yn magu hyder i fynd i'r afael â phroblemau geiriau a defnyddiant eu medrau rhesymu yn dda i ddod o hyd i atebion. Cryfder gwaith mathemategol disgyblion yw eu parodrwydd i ddyfalbarhau a rhoi cynnig ar wahanol dulliau. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn rhoi cynnig ar wahanol strategaethau i ddatrys problemau lluosu dau ddigid, gan wirio'u hatebion gan ddefnyddio gweithrediadau gwrthdro. Gwna disgyblion gynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau rhifo pen a galw ffeithiau allweddol i gof.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fuddiol. Mae disgyblion iau yn gwybod sut i fynd at Hwb a'i ddefnyddio ac maent yn storio ac adalw eu gwaith yn hyderus. Mae disgyblion yn archwilio amrywiaeth dda o gymwysiadau ac yn dod yn ddefnyddwyr TGCh hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cymhwyso dewis addas o fedrau TGCh mewn llawer o feysydd y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn casglu gwybodaeth i greu cronfeydd data, maent yn defnyddio codau QR ac yn gwneud ffilmiau byr a'u trosleisio pan fyddant yn chwarae rôl faciwi yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn deall y Gymraeg a ddefnyddir gan staff ac yn ymateb gan ddefnyddio ystod briodol o gyfarchion ac ymadroddion cyfarwydd. Mae mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio geirfa a phatrymau brawddegau sylfaenol yn dda, er enghraifft wrth drafod eu hoff bethau a'u cas bethau. Darllenant lyfrau Cymraeg priodol gyda mwy a mwy o ddealltwriaeth. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu darnau byr yn dda gan ddefnyddio geirfa a phatrymau brawddegau cyfarwydd, er enghraifft wrth ysgrifennu amdanynt eu hunain. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid oes digon o wybodaeth am batrymau'r Gymraeg na geirfa digon eang gan nifer gormodol o ddisgyblion i'w galluogi i gyfathrebu'n hyderus mewn sefyllfaoedd gwahanol.

Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae cryfder perthnasoedd gweithio rhwng disgyblion a staff yn nodwedd eithriadol o waith yr ysgol. Mae'r perthnasoedd hyn yn sylfaen i ddiwylliant yr ysgol a chwaraeant ran hollbwysig yn gwella agweddau disgyblion at ddysgu, eu symbyliad a'u hymddygiad. Mae gan ddisgyblion lefelau eithriadol o uchel o ymddiriedaeth yn y staff a chredant yn gryf y bydd y staff bob amser yn gwneud eu gorau drostynt. Mae hyn yn magu hyder a hunan-barch disgyblion ac yn eu helpu i ddod yn ddysgwyr a meddylwyr annibynnol. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain yn hyderus ynghylch sut a beth fyddant yn ei ddysgu wrth iddynt archwilio pob agwedd ar eu hamgylchedd. Mae disgyblion hŷn yn dangos dealltwriaeth dda o ddiben asesu i symud eu dysgu yn eu blaen. Ymatebant yn aeddfed ac yn gyflym i sylwadau gan eu hathro a'u cymheiriaid ar sut i wella'u gwaith.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Os bydd digwyddiadau, mae staff a disgyblion yn cydweithio i ddod o hyd i atebion ac mae hyn yn allweddol ar gyfer helpu disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd. Mae disgyblion yn copïo ymddygiadau sy'n cael eu modelu gan staff ac, yn gyffredinol, maent yn gwrtais iawn tuag at ei gilydd ac yn dangos dealltwriaeth fawr ohonynt ei gilydd. Mae disgyblion sydd wedi cael trafferth yn ymgartrefu mewn ysgolion eraill yn ymateb yn gadarnhaol iawn i strategaethau

rheoli ymddygiad yr ysgol ac mae hyn yn gwella'u hagwedd at yr ysgol a'u presenoldeb yn sylweddol. Mae bron pob un o'r disgyblion hyn yn integreiddio'n llwyddiannus i ddarpariaeth brif ffrwd neu ddarpariaeth anogaeth yr ysgol.

O ganlyniad i'r cymorth eithriadol a gaiff disgyblion ar gyfer eu hanghenion cymdeithasol, emosiynol a dysgu, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymroi'n bwrpasol i'w dysgu ac yn canolbwyntio'n dda yn unol â'u cam datblygu. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac nid ydynt yn rhoi'r ffidil yn y to hyd yn oed pan fyddant yn cael gweithgareddau'n anodd. Mae disgyblion wedi'u symbylu i ddysgu ac maent yn awyddus iawn i wella'u medrau a'u doniau.

Mae disgyblion yn datblygu medrau cydweithredu a chydweithio cadarn. O oedran ifanc, dysgant barchu ei gilydd a gwrando ar farn pobl eraill. Mae hyn yn arwain at awyrgylch digynnwrf a chynhyrchiol yn holl ardaloedd yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'u hunain yn ddiogel yn yr ysgol, gartref ac ar-lein. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwybod ei bod hi'n bwysig cadw'u hunain yn heini ac yn iach. Mae llawer o'r disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol, fel rhan o'u cwricwlwm ac fel gweithgareddau allgyrsiol. Yn ddiweddar, fe wnaeth disgyblion fwynhau dysgu medrau pêl-droed gan chwaraewr proffesiynol. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r hyn sy'n gwneud deiet iach. Mae'r holl ddosbarthiadau'n cymryd rhan yn y prosiect glanhau dannedd. Mae hyn yn gwella ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd hylendid deintiol.

Mae llawer o ddisgyblion a rhieni wedi ymateb yn gadarnhaol i ffocws yr ysgol ar wella presenoldeb ac mae disgyblion yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Er enghraifft, mae bron 100 o ddisgyblion yn mynychu clwb brecwast yr ysgol erbyn hyn ac mae hyn wedi gwella'u presenoldeb a'u prydlondeb. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, ar y cyfan, nid yw presenoldeb wedi gwella digon o gymharu â lefelau presenoldeb ysgolion tebyg.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae bron pob un o'r athrawon yn holi amrywiaeth eang o gwestiynau sy'n mynnu bod disgyblion yn meddwl drostynt eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn annog disgyblion i ymestyn a chyfiawnhau eu hatebion. Mae gan athrawon ym mlynnyddoedd cynnar y cyfnod sylfaen ddealltwriaeth dda iawn o ddatblygiad plant a sut mae plant ifanc yn dysgu orau. Maent yn cynllunio gweithgareddau a gwersi sydd wedi'u haddasu'n eithriadol o dda i fodloni anghenion a diddordebau disgyblion unigol. Mewn llawer o ddosbarthiadau ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau sy'n herio disgyblion o bob gallu yn briodol. Fodd bynnag, mewn ychydig ddosbarthiadau, nid yw'r her i'r disgyblion mwyaf abl yn ddigon uchelgeisiol ac ni chaiff disgyblion eu hannog yn gyson i ysgrifennu'n estynedig yn bwrpasol. Mae cynorthwyyr addysgu'n gweithio'n dda iawn ochr yn ochr ag athrawon i gefnogi datblygiad medrau a datblygiad cymdeithasol disgyblion. Mae'r holl staff yn fodolau da o iaith ac ymddygiad i ddisgyblion.

Mae adborth y rhan fwyaf o athrawon i ddisgyblion o ansawdd da. Er enghraifft, mae adborth llafar a roddir yn y fan a'r lle yn y cyfnod sylfaen ac adborth ysgrifenedig â

ffocws ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn helpu disgyblion i wella'u gwaith. Mae llawer o athrawon yn rhoi cyfleoedd defnyddiol a rheolaidd i ddisgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cymheiriaid.

Mae athrawon yn y cyfnod sylfaen yn cynllunio gweithgareddau dychmygus, o safon uchel, ar draws pob maes dysgu. Yn benodol, mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau iaith a lleferydd disgyblion yn eithriadol. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer chwarae parhaus ac estynedig disgyblion yn faes nodedig arall. Er enghraifft, mae gan ddisgyblion fynediad rhydd ac agored i ardal awyr agored sydd wedi'i chynllunio'n dda iawn, sy'n cynnig cyfleoedd ysgogol a diddorol i ddisgyblion archwilio, arbrofi a throchi eu hunain yn eu dysgu. Mae holl staff y cyfnod sylfaen yn ystyried diddordebau disgyblion yn dda iawn a'r hyn mae disgyblion eisiau dysgu amdano. Mae hyn yn arwain at lefelau uchel o symbyliad a diddordeb gan ddisgyblion. Er enghraifft, disgyblion Blwyddyn 1 ysgogodd y prosiect presennol ar adeiladu ar ôl gwyllo'r gweithwyr yn dechrau adeiladu ystafell ddosbarth newydd ar safle'r ysgol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r cynllunio yn systematig ac yn effeithiol. Mae hyn yn helpu athrawon i gynllunio tasgau addas sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion. Mae athrawon yn cynnig dewis ysgogol o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion. Mae'r profiadau hyn sydd wedi'u cynllunio yn helpu disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn cymryd cyfrifoldeb am drefnu gêm rhifau sy'n datblygu'u medrau rhifedd ac yn eu hannog i osod heriau personol.

Mae athrawon yn cyflwyno cyfleoedd gwerth chweil a diddorol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd a TGCh disgyblion yn addas.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig a medrau Cymraeg disgyblion yn anghyson. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o'r Gymraeg na threftadaeth a diwylliant Cymru yn ddigon da.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn gymuned eithriadol o ofalgar a meithringar sy'n sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn. O ganlyniad, o'r cychwyn cyntaf yn yr ysgol, mae disgyblion yn cael cefnogaeth ragorol i'w hanghenion cymdeithasol, emosiynol a dysgu.

Mae rhaglenni cymorth unigol yn hynod effeithiol wrth gynorthwyo disgyblion i ddatblygu'u medrau iaith a lleferydd a gwella ymddygiad disgyblion a'u hagwedd tuag at yr ysgol. Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion sydd wedi cael trafferth ymgartrefu mewn ysgolion eraill yn hynod effeithiol. Mae rhaglen allgymorth yr ysgol i helpu ysgolion yn yr ardal i reoli ymddygiadau heriol yn rhagorol. Mae cynorthwywyr addysgu'n chwarae rhan hollbwysig wrth ddarparu lefel eithriadol o ofal a chymorth i ddisgyblion agored i niwed a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol iawn i ddisgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynlluniau cymorth personol a chynlluniau addysg unigol yn gryno a chliir. Mae'r cynlluniau'n cynnwys targedau realistig sy'n herio ac yn cynorthwyo

disgyblion i wella'u dysgu a datblygu medrau newydd. Mae'r cynlluniau hyn sydd wedi'u personoli yn sicrhau bod disgyblion yn cael yr help penodol y mae arnynt ei angen i wella'u dysgu a'u medrau.

Mae staff yn defnyddio systemau olrhain yr ysgol yn effeithlon i fonitro cynnydd yr holl ddisgyblion. Mae hyn yn helpu staff i adnabod unrhyw ddisgyblion sydd angen cymorth neu her ychwanegol yn gyflym. Er enghraifft, mae adnabod disgyblion ag oedi iaith a lleferydd yn gynnar yn golygu bod disgyblion yn cael cymorth amserol ac effeithiol.

Mae gan yr ysgol berthynas lwyddiannus a chefnogol â rhieni. Maent yn gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth a gânt gan yr ysgol, o ran eu lles eu hunain a lles eu plant. Mae'r partneriaethau hynod effeithiol sydd gan yr ysgol â gwasanaethau eraill yn golygu eu bod yn cydweithio i deilwra pecyn o gymorth sy'n bodloni anghenion teuluoedd unigol. Hefyd, mae'r ysgol yn mynd ati i annog rhieni i ymwneud â dysgu eu plant trwy ddod i weithdai a thrwy ddarparu llyfrynnau gwybodaeth sy'n addas i oedolion.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach o ran ffordd o fyw ac mae ganddi drefniadau priodol i hybu bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, caiff byrbrydau iach eu hannog ac mae disgyblion yn mwynhau ffrwythau am ddim ar ddydd Gwener. Mae disgyblion yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o glybiau ar ôl ysgol. Er enghraifft, gall disgyblion Blwyddyn 6 fynychu clwb nofio ar ôl ysgol sy'n cael ei arwain gan y staff a'i gynnal yn y ganolfan hamdden leol. Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut i gadw'u hunain yn ddiogel, er enghraifft trwy weithgareddau diogelwch y rhyngwyd.

Mae'r ysgol yn rhoi llawer o gyfleoedd addas i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb a datblygu'u medrau arwain. Er enghraifft, mae cynghorwyr yr ysgol wedi adolygu polisi ysgol iach yr ysgol. Mae e-gadetiadau yr ysgol yn mynd ati i rannu gwybodaeth sy'n helpu disgyblion eraill i ddatblygu'u dealltwriaeth o gadw'n ddiogel ar-lein.

Trwy wasanaethau rheolaidd a gwaith cwricwlwm, mae disgyblion yn dathlu amrywiaeth ac yn datblygu'u dealltwriaeth ysbrydol a moesegol. Mae hyn yn eu helpu i ddysgu'n dda am bwysigrwydd ymddiriedaeth, dyfalbarhad a goddefgarwch. Mae disgyblion yn elwa hefyd o amrywiaeth dda o brofiadau diwylliannol, fel gwranddo ar berfformiadau gan gerddorfeydd a grwpiau sy'n ymweld â'r ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn cynnig arweinyddiaeth gadarn ac ymdeimlad clir o gyfeiriad strategol i waith yr ysgol; mae'r ddau yn angerddol iawn am y gymuned maen nhw'n ei gwasanaethu. Maent yn hynod effeithiol wrth osod a hybu gweledigaeth i'r ysgol, sy'n canolbwyntio ar barch, gwella lles, meithrin perthnasoedd cymunedol a gwelliannau parhaus yn safonau disgyblion. Mae uwch arweinwyr yn arwain trwy esiampl ac yn modelu'r ymddygiadau a ddisgwyliant gan staff yn eithriadol o dda. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bawb ac ohonynt eu hunain. Caiff arweinwyr gefnogaeth gref gan staff, sydd oll yn credu yng ngweledigaeth yr ysgol ac yn gweithio tuag at ei chyflawni.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfarfodydd staff rheolaidd yn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol yn effeithiol. Maent yn canolbwyntio'n bwrsasol ar wella cyrhaeddiad disgyblion a rhoddant gyfleoedd gwerthfawr i roi adborth i staff am weithgareddau monitro. O ganlyniad, mae'r holl aelodau staff yn deall eu rolau yn glir, yn gweithio'n dda fel tîm ac yn cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau gwella'r ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn effeithiol ac yn cyflawni ei swyddogaethau'n dda. Mae llywodraethwyr yn deall cyd-destun yr ysgol, ei chryfderau a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae uwch arweinwyr yn hysbysu llywodraethwyr yn dda am y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni. Mae hyn yn galluogi llywodraethwyr i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus.

Mae hunanarfarnu yn gynhwysfawr, yn drylwyr ac yn effeithiol. Mae arweinwyr yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgareddau hunanarfarnu i'w helpu i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn gywir. Maent yn dadansoddi data yn drylwyr, yn adolygu gwaith disgyblion ac yn arsylwi gwersi. Mae athrawon yn edrych ar waith disgyblion gyda'i gilydd yn rheolaidd i weld a yw'r dystiolaeth yn dangos cynnydd. Mae hyn yn sicrhau cysondeb ac atebolrwydd ymhlith staff am ansawdd darpariaeth yr ysgol. Mae arweinwyr yr ysgol yn gwrando'n ofalus ar farn rhieni a disgyblion. Dyma un o gryfderau'r ysgol ac mae'n sicrhau bod gan ddisgyblion a rhieni lais clir o ran gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau lles.

Mae'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth o hunanarfarnu yn effeithiol i nodi nifer hylaw o flaenoriaethau ysgol gyfan priodol a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar ddeilliannau i ddisgyblion, yn ei barn hi. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos â llywodraethwyr a staff i weithredu'r cynlluniau hyn a monitro cynnydd yn ôl y blaenoriaethau gwella. Mae hyn yn sicrhau bod cynllunio ar gyfer gwella'r ysgol yn effeithiol o ran arwain at ddeilliannau gwell i ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'n llwyddiannus i gefnogi disgyblion a sicrhau gwelliant. Mae gweithgareddau dysgu proffesiynol yn cysylltu'n dda ag anghenion datblygu staff yn ogystal â blaenoriaethau'r ysgol. Yn yr ysgol, mae athrawon yn cydweithio'n agos i rannu syniadau a dysgu oddi wrthynt ei gilydd. Maen nhw'n groesawgar iawn i staff o ysgolion eraill, sy'n ymweld yn rheolaidd i edrych ar ddarpariaeth cyfnod sylfaen yr ysgol a'i dulliau ar gyfer cefnogi disgyblion agored i niwed a disgyblion ag ymddygiadau heriol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd rheolaidd i staff rannu'r arferion addysgu gorau sydd yn yr ysgol eisoes na dysgu o'r arfer dda mewn ysgolion eraill.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth y corff llywodraethol, yn rheoli'r gyllideb ac yn monitro effaith gwariant yn drwyadl. Mae'r ysgol yn lleihau effaith tlodi ac amddifadedd ar ddisgyblion agored i niwed yn hynod llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd arbennig o dda o'r grant datblygu disgyblion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar wella safonau a lles disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/11/2017